Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

13 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Cyllid** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | NRW B B 33.17 |
| **Paratowyd y Papur gan:** | Andrea Morgan, **Rheolwr Cyllid Busnes**<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Noddir y Papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu a Phenderfynu** |
| **Argymhellion:** | I graffu ar:<br>• Perfformiad ariannol 2016-17.<br><br>I nodi:<br>• Cynnydd o ran cynhyrchu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17.<br>• Cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru.<br>I gadarnhau:<br>• Adolygu Cyllideb 2017-18, drwy greu Cyllideb Ddiwygiedig Chwarter 1. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | **Ystyried y <u>tymor hir:</u>**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r un gyfredol, yn ogystal â'r gwaith rheoli ariannol cadarn sy'n elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br>**Defnyddio dull <u>integredig</u>:**<br>**Cynnwys <u>amrywiaeth o'r boblogaeth:</u>**<br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithrediadol</u>:**<br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:** |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| | Mae'r papur hwn yn amlygu'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru ar ostyngiadau i'n cyllid yn y dyfodol. |

**Pwnc**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad o ran sefyllfa perfformiad diwedd y flwyddyn ar gyfer 2016-17.

2. Gwnaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gwrdd ym mis Mehefin i ystyried yr Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Cyfrifon ar gyfer 2016-17. Mae'r gwaith yn parhau yn unol â'r amserlen a bydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cwrdd eto ar 14 Gorffennaf i ystyried fersiwn derfynol yr adroddiad a'r cyfrifon yn dilyn diwedd yr archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3. Rydym yn adolygu ein cyllidebau yn chwarterol. Mae'r papur hwn yn ceisio am gytundeb ffurfiol ar gyfer Cyllideb Ddiwygiedig Chwarter 1, sy'n cwmpasu diwygiadau o ganlyniad i gadarnhau'r hyn sy'n cael ei drosglwyddo ymlaen ar gyfer 2016-17 a dyrannu cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau uchaf.

**Cefndir**

4. Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 25 Mai, gwnaethom amlinellu'r sefyllfa ariannol ddangosol ar gyfer 2016-17 tra oeddem yn dal i gwblhau'r sefyllfa ar gyfer diwedd y flwyddyn. Gwnaethom gyhoeddi incwm o £199.5 miliwn a gwariant o £172.2 miliwn. Gallwn gyhoeddi mai'r sefyllfa derfynol o ran incwm yw £200.0 miliwn ac o ran gwariant £172.2 miliwn.

   Mae canlyniadau 2016-17 yn dangos perfformiad ariannol cryf gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi rhagori ar ein targedau incwm, ac wedi rheoli ein gwariant o fewn y gyllideb wrth gyflawni ein Cynllun Busnes. Mae hyn wedi ein galluogi i symud cyllid ymlaen i 2017-18 i helpu i fodloni ein heriau cyllido yn y dyfodol.

**Asesu**

**Diweddariad Perfformiad Ariannol ar gyfer 2016-17**

5. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

   **Incwm** o £200 miliwn, sef £15.5 miliwn yn fwy na'n Gyllideb Ddiwygiedig.

- Mae hwn yn bennaf o ganlyniad i Gymorth Grant a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2017 (£14.6 miliwn) i ariannu pwysau yn 2017-18, ynghyd â gorgyflawni o ran ein targedau incwm (£0.9 miliwn).

Roedd **gwariant** yn £5.2 miliwn yn llai na'r Gyllideb Ddiwygiedig, sy'n cynnwys:

- oedi wrth weithredu'r broses Gwerthuso Swyddi
- newid o ran proffiliau gwariant ar gyfer prosiectau sydd wedi'u neilltuo ac sy'n cael eu hariannu'n allanol
- gostyngiad mewn gwariant arfaethedig o ganlyniad i reoli gwariant gweithredol
- Gwnaethom dalu £1.4 miliwn ym mis Mawrth i Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol tuag at y diffyg pensiwn

Felly, mae mwy o gyllid ar gael yn 2017-18 o ganlyniad i'r perfformiad cyllidebol a'r Cymorth Grant ychwanegol yn 2016-17. Mae'r arian sy'n cael ei drosglwyddo ymlaen o fewn y terfynau trosglwyddo ymlaen y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom gyflawni set ragorol o ganlyniadau cydymffurfiaeth hefyd (perfformiad talu cyflenwyr ac adfer dyled) ym mis Mawrth.

Crynhoir y sefyllfa ariannol gyffredinol isod:

| **Year End Position - 2016-17** | **Income £m** | **Expenditure £m** | **Balance £m** |
|---|---|---|---|
| **Revised Budget at February 2017** | **184.5** | **177.4** | **7.1** |
| Additional Grant in Aid from Welsh Government | 14.6 | | **14.6** |
| Additional Income | 0.9 | | **0.9** |
| Directorate underspend at year end | | -2.2 | **2.2** |
| Payment to Pension Fund | | 1.4 | **-1.4** |
| Changes in project expenditure profiles | | -1.7 | **1.7** |
| Job Evaluation | | -2.7 | **2.7** |
| **Year End Position** | **200.0** | **172.2** | **27.8** |

# Papur y Bwrdd

Mae Atodiad A yn cynnwys rhagor o fanylion o ran sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn 2016-17.

**Cynhyrchu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016-2017**

6. Rydym yn gwneud cynnydd yn unol â'r cynllun o ran creu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ymlaen â'r archwiliad ariannol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 16 Mehefin, yn dilyn sesiwn fwy manwl a oedd yn ystyried y cyfrifon drafft gydag aelodau'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cwrdd eto ar 14 Gorffennaf pan fydd yn ystyried cyflwyno'r argymhelliad i'r Swyddog Cyfrifon fel ei fod yn gallu llofnodi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

**Diweddariad y Gyllideb ar gyfer 2017-18**

7. Ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r Gyllideb Agoriadol a'r Cynllun Busnes ar gyfer 2017-18, bu nifer o newidiadau y mae angen eu cynnwys mewn Cyllideb Ddiwygiedig. Mae'r Tîm Gweithredol wedi cyfarfod ym mis Mai i gytuno ar y newidiadau hynny, gan ymgorffori'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer trosglwyddo ymlaen. Mae'r newidiadau wedi'u hamlygu yn Atodiad B ac yn arwain at sefyllfa gytbwys ar gyfer y gyllideb, gydag incwm a gwariant o £188.4 miliwn.

8. **Perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn –** ar ddiwedd mis Mai 2017, roedd ein hincwm o flaen y gyllideb hyd yn hyn (£52.4 miliwn) o £0.2 miliwn (0.4%). Roedd ein gwariant y tu ôl i'r gyllideb hyd yn hyn (£25.5 miliwn) o £3.2 miliwn (12.7 %). Mae'n gynnar yn y flwyddyn ariannol ac nid oes achos i boeni o ran y perfformiad ariannol hyd yn hyn.

**Cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru**

9. Cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru ers y cyfarfod Bwrdd ym mis Mawrth.

| Eitem | Gwerth | Disgrifiad | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Taliad Diswyddo Arbennig | 30,000 | Taliad diswyddo o dan drothwy dogfen fframwaith Llywodraeth Cymru a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru | Cymeradwyaeth wedi'i sicrhau 17 Mai 2017 |
| Prosiect Gwaith Coed a Sefydlogi Bont Evans (BETWS) | 3,998,000 | Prosiect i gynaeafu coed aeddfed sy'n peri risg uniongyrchol o gael eu chwythu gan y gwynt lle mae potensial uchel o golli bywyd ac achosi aflonyddwch economaidd sylweddol o ganlyniad i gau'r A487. | Rydym yn disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru |
| Taliad iawndal ymlaen llaw | 20,000 | Taliad llawn ymlaen llaw a setliad terfynol o'r holl hawliadau yn ymwneud â cholli refeniw masnachu yn deillio o'r cyfnod gwaith ym Marchnad Da Byw Llanelwy. | Cymeradwyaeth i ddod |

**<u>Argymhelliad</u>**

10. Gofynnir i'r bwrdd:
    - Craffu ar y perfformiad ariannol ar gyfer 2016-2017.
    - Nodi'r cynnydd o ran cynhyrchu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17.
    - Cymeradwyo'r diwygiad i Gyllideb 2017-18, drwy greu Cyllideb Ddiwygiedig Chwarter 1.
    - Nodi cymeradwyaethau Llywodraeth Cymru.

**<u>Risgiau Allweddol</u>**

11. Mae archwilio'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn mynd rhagddo'n dda ond heb ei gwblhau eto. Nid ydym yn disgwyl unrhyw newid materol i'r sefyllfa a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

12. Mae risg o hyd y bydd yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn amodol oherwydd y mater contract tymor hir parhaus.

13. Wrth edrych ymlaen, y prif risgiau ariannol yw:
    - Canlyniad y Cynllun Gwerthuso Swyddi/apeliadau.
    - Canlyniad y setliad Cymorth Grant ar gyfer 2018-19, lle rydym wedi rhagweld gostyngiad o 5% wrth gynllunio i'r dyfodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

- Gweithredu ein Dyluniad Sefydliadol.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Yr unig oblygiad ariannol o ran cynhyrchu adroddiad perfformiad diwedd y flwyddyn a'r Adroddiadau a'r Cyfrifon Blynyddol, ar wahân i amser y staff, yw'r ffi archwilio allanol.

**Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

15. Nid oes angen asesiad.

**Mynegai o Atodiadau**

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer 2016-17

Atodiad B – Diweddariad Cyllideb ar gyfer 2017-18